Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Cwmbran**
**Two Locks Church**
**Two Locks Road**
**Two Locks**
**Cwmbran**
**NP44 7HG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Cwmbran a sefydlwyd yn 1973. Mae`n gwasanaethu`r ardal leol mewn neuadd eglwys ar hyn o bryd. Mae`r holl blant yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith a does neb yn siarad Cymraeg.

Mae'r lleoliad yn ddarparydd addysgol sy`n cael ei gefnogi gan Bartneriaeth Gofal Plant a Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Torfaen.

Mae'r lleoliad yn darparu gofal ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed a darpariaeth addysgol ar gyfer plant tair oed ar bum bore'r wythnos a dau brynhawn yn ystod y tymor. Ar hyn o bryd mae 24 o blant ar y gofrestr.

Yn ystod yr arolygiad ar fore Mercher yr oedd yna 12 o blant yn bresennol tri ohonynt yn dair oed. Roedd un o'r tair oed yn cael ei ariannu. Ar y bore dydd Iau roedd yna 16 o blant yn bresennol a pump ohonynt yn dair oed.

Mae'r lleoliad yn darparu darpariaeth addysgol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o gefndir ethnig.

Mae`r lleoliad yn cael ei redeg gan arweinydd profiadol â chymwysterau da sydd wedi bod yn y swydd am 12 mlynedd. Mae`n cael ei chefnogi gan ddau gynorthwywyr cymwys. Mae gan y ddau gymwysterau addas a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r lleoliad hefyd yn elwa o gael cymorth gan gynorthwyydd gwirfoddol. Mae'r holl staff yn ddysgwyr Cymraeg.

Mae Mudiad Meithrin yn cydnabod y lleoliad fel "Cylch da iawn".

Cafodd y lleoliad ei arolygu yn flaenorol gan Estyn ym Mai 2009 ac ym mis Gorffennaf 2013 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol Cylch Meithrin Cwmbran yn dda oherwydd:

- Mae`r plant yn mwynhau dod i`r lleoliad ac yn setlo`n gyflym
- Mae ethos hapus a chroesawgar yno
- Mae`r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn gofalgar tuag atynt
- Mae medrau cymdeithasol yr holl blant yn datblygu`n dda
- Mae`r lleoliad yn darparu`r plant ag amrywiaeth werthfawr o brofiadau dysgu o ansawdd uchel
- Mae`r berthynas rhwng staff a`r plant yn dda iawn ac wedi`i selio ar gyd-hoffter a pharch
- Mae trefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod y plant yn bwyta ac yn yfed yn iach a`u bod yn cymryd rhan mewn ymarfer corff rheolaidd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Cylch Meithrin Cwmbran yn dda oherwydd:

- Mae`r arweinydd yn darparu synnwyr clir o ddiben ar gyfer y lleoliad
- Mae`r ymarferwyr yn gweithio`n effeithiol fel tîm ac yn ymrwymedig i ddatblygiad a lles y plant
- Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant
- Mae`r lleoliad wedi ymrwymo i wella ac yn cael cefnogaeth dda gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol
- Mae`r berthynas â gwasanaethau proffesiynol yn cefnogi`r plant sydd ag anghenion penodol

## Argymhellion

A1 Datblygu gweithdrefnau asesu ymhellach er mwyn nodi datblygiad medrau`r plant yn glir a nodi`r camau nesaf yn eu dysgu

A2 Darparu gwaith sydd wedi`i wahaniaethu`n dda i allu a chyflawniad blaenorol y plant

A3 Sicrhau yn y cynllunio o brofiadau dysgu bod yna ddilyniant a pharhad yn y dysgu ar gyfer y plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Dd/b |
|---|---|

**Safonau: Dd/b**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/b**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn effeithiol. Mae anghenion a diddordebau'r plant yn cael eu trafod ac mae`r cynllunio`n cael ei wneud yn wythnosol gyda`r arweinydd yn cydlynu'r profiadau dysgu.

Mae`r cynlluniau wythnosol yn unol â gofynion y Cyfnod Sylfaen yn y ffordd mae pob maes dysgu yn cael eu cynnwys gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhifedd y plant o fewn cwricwlwm eang. Mae pwyslais da ar ddatblygu annibyniaeth y plant a`u sgiliau meddwl. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio yn nodi dilyniant a pharhad yn nysgu'r plant yn ddigon clir.

Mae hwn yn leoliad cyfrwng Cymraeg mewn cymuned Seisnig ac mae`r ymarferwyr yn ymdrechu i sgwrsio gyda phlant yn yr iaith. Mae cyfleoedd addas i blant i ateb yn y Gymraeg a chyfleoedd da i blant ganu rhigymau Cymraeg a chymryd rhan mewn caneuon actol. Mae storïau yn cael eu darllen i blant yn y Gymraeg mewn sesiynau grŵp. Mae hyn yn ffordd effeithiol o ddatblygu`r iaith. Fodd bynnag, tanddatblygedig yw iaith Gymraeg yr ymarferwyr.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd effeithiol i ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymru trwy weithgareddau fel dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen. Mae`r plant yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill trwy astudio, er enghraifft, y flwyddyn newydd Tsieineaidd. Mae`r plant yn dysgu am arferion a bwydydd Tseiniaidd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o'r gymuned leol. Mae ymweliadau rheolaidd yn cael eu gwneud â`r ardal leol a thu hwnt, gan gynnwys ymweliadau i amgueddfa werin Sain Ffagan Cymru pan fydd plant yn profi bywyd yr ysgol yn y gorffennol. Mae pobl sy'n eu cefnogi yn y gymuned, gan gynnwys yr heddlu lleol, diffoddwyr tân a nyrs, yn ymweld â'r lleoliad.

Mae dealltwriaeth plant o'r angen i warchod yr amgylchedd yn cael ei wella gan blanhigion sy'n tyfu. Mae hyn yn cynnwys tyfu a chynaeafu tatws a bwyta mefus sy`n cael eu tyfu ganddynt yn yr ardd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd y berthynas rhwng ymarferwyr a phlant yn dda iawn ac wedi ei seilio ar gyd-hoffter a pharch. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae hyn yn cael ei wireddu i raddau helaeth iawn yn ymarferol. Mae`r staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ddarparu profiadau dysgu ysgogl ar gyfer y plant yn seiliedig ar ofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion a gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn. Mae`r plant yn cael cyfleoedd gwerth chweil i weithio'n annibynnol ac i ddatblygu eu medrau meddwl, ond byth yn cael eu gadael heb weithgareddau ystyrlon. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynu yn dda i brofi dealltwriaeth y plant ac i ddatblygu'r iaith Saesneg a Chymraeg. Mae hyn yn arwain at y plant yn datblygu geirfa dda.

Mae`r sesiynau addysgu yn symud ymlaen ar gyflymder bywiog ac mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cynnal eu diddordeb ac yn llawn cymhelliant.

Mae trefniadau effeithiol ar waith i asesu`r plant. Mae`r plant yn cael eu hasesu`n rheolaidd wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd ffocws penodol. Hefyd, mae proffiliau deniadol plant unigol yn cynnwys enghreifftiau o waith sy`n cael ei wneud gan bob plentyn. At ei gilydd, mae'r cofnod asesu yn rhoi darlun clir o gyflawniadau pob plentyn dros gyfnod o amser. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u gallu a'u cyflawniad. Fodd bynnag, nid yw`r cofnodion o waith y plant bob amser yn cynnwys nodiadau i nodi`r medrau sydd wedi`u cyflawni. Mewn rhai achosion, mae`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn cael eu nodi ond nid yw`r camau hyn yn ddigon manwl ac nid yw`r gweithgareddau sy`n cael eu cynllunio`n cael eu gwahaniaethu'n ddigonol i ystyried gwahanol oedran a gallu`r plant.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd i arfarnu eu gwaith ac mae hyn yn hynod effeithiol o ran codi eu hyder ac ymwybyddiaeth o'u cyflawniad. Mae rhieni`n cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant trwy gyswllt anffurfiol ac adroddiadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad y plant yn cael effaith llwyddiannus ar y safonau sy`n cael eu cyflawni gan y plant a`u lles.

Mae`r profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn gadarnhaol. Mae'r lleoliad yn defnyddio amser byrbryd yn dda i annog plant i fod yn gyfrifol, i rannu ac i barchu dymuniadau ei gilydd. Mae`r plant hefyd yn sylweddoli bod golchi eu dwylo yn bwysig cyn bwyta ac ar ôl bod yn y toiled. Mae`r plant yn dechrau dysgu am bwysigrwydd nwyddau iach, yn gwybod pa mor bwysig yw ymarfer corff a brwsio eu dannedd ar ôl bwyta. Ar y cyfan, mae amser byrbryd hefyd yn rhoi cyfleoedd rhagorol i`r plant ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol.

Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn llwyddo i ddatblygu cysyniad y plant o onestrwydd, tegwch a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir.  Ar y cyfan, mae`r plant wedi datblygu fframwaith ymddygiad effeithiol iawn maen nhw`n glynu ati yn ddieithriad.

Mae chwilfrydedd y plant am y byd yn cael ei wella drwy astudiaethau o wledydd eraill y maen nhw`n ymweld â nhw ar eu gwyliau.

Mae dealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd yn datblygu'n briodol.  Mae papur a chardbord yn cael ei gasglu ar gyfer ailgylchu neu ei ail-ddefnyddio.  Mae`r plant yn tyfu hadau a phlanhigion ac yn gofalu amdanynt.  Mae tatws yn cael eu tyfu o "hadau" a mefus yn cael eu tyfu yn eu gardd.  Maes o law, mae`r llysiau a`r ffrwythau hyn yn cael eu bwyta yn ystod eu hamser byrbryd.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo a diogelu plant ac i sicrhau eu lles.  Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r holl ymarferwyr yn adnabod eu cyfrifoldebau a'r camau i'w cymryd os oes angen.  Yn gyffredinol, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn briodol.

Mae trefniadau effeithiol iawn yn eu lle i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae profiadau`r arweinydd yn ei galluogi i adnabod plant sydd ag anghenion yn gynnar iawn ac mae ganddi gysylltiad ag ystod eang o wasanaethau proffesiynol lleol fel bod plant o'r fath yn derbyn cymorth arbenigol yn fuan iawn. Mae cynlluniau addysg unigol yn cael eu darparu ar gyfer plant o'r fath mewn ymgynghoriad â'r asiantaethau arbenigol ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.  Mae'r lleoliad yn cadw cofnodion rheolaidd o gyflawniadau'r plentyn. Mae`r rhieni`n cymryd rhan lawn ym mhob cam ac yn werthfawrogol iawn o gefnogaeth y lleoliad.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae pawb, yn staff neu`n blant yn cael eu trin â pharch.  Mae`r plant yn derbyn gofal a chefnogaeth dda ac mae eu hanghenion unigol yn cael eu cydnabod.  Mae'n gymuned gynhwysol lle mae gan yr holl blant hawl gyfartal i'r holl brofiadau dysgu.  Mae`r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol gyda'r canlyniad bod y plant yn derbyn ymddygiad da fel y norm disgwyliedig.

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwys a phrofiadol sydd, yn ystod yr arolygiad, yn cael cefnogaeth dda gan gynorthwyydd gwirfoddol.  Mae pob un yn gymwys iawn i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau priodol o ansawdd da sy`n addas ar gyfer oedran y plant.  Mae ardaloedd y gweithgareddau yn cael eu diffinio'n dda ac yn darparu`r plant ag ystod gynhwysfawr o weithgareddau heriol.  Maen nhw`n cael eu defnyddio'n dda gan y plant.  Mae mynediad uniongyrchol i ardal y tu allan sydd ag adnoddau da sy'n cael ei defnyddio'n bwrpasol gan y plant.

Mae'r adeilad a'r ardal allanol yn ddiogel ac mae`r gweithgareddau wedi eu hintegreiddio'n dda i mewn i'r cwricwlwm sydd wedi`i gynllunio.  Mae defnydd da yn

cael ei wneud o waith y plant i wella'r amgylchedd dysgu ac mae hyn yn cael ei ategu gan eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn bennaf yn cael eu harddangos. Mae`r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r gymuned leol ar gyfer ymweliadau ac mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â`r lleoliad.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r lleoliad yn cael ei arwain a'i reoli`n efeithiol gan ymarferydd profiadol. Mae ei gweledigaeth ac ymrwymiad clir yn amlwg ac yn cael ei gyfleu i'w staff a'i gydnabod gan rieni. Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n llwyddiannus fel tîm gan ddangos ymrwymiad cryf i ddarparu addysg gwerth chweil i'r plant. Mae pob un yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac yn dangos ymrwymiad cryf i'w rolau. Mae cyfeiriad clir a gwaith tîm yn sicrhau bod y sesiynau`n rhedeg yn esmwyth ac mae`r plant yn elwa o amgylchedd dysgu pwrpasol.

Mae`r staff yn cael cyfarfodydd staff rheolaidd gan gadw munudau ac ynghyd â'r drafodaeth anffurfiol, yn galluogi i flaenoriaethau ar gyfer gwella gael eu nodi. Mae gwelliannau wedi'u ffocysu'n dda ar godi safonau cyflawniad y plant a mynd i'r afael â'u hanghenion.

Nid oes gan yr arweinydd y fantais o bwyllgor rheoli. Tra bod rhieni yn fodlon iawn gyda'r lleoliad ac yn gwerthfawrogi'r cynnydd y mae eu plant yn ei wneud, mae gandynt amharodrwydd llwyr i gymryd rhan yn rheolaeth y lleoliad. O ganlyniad, yr arweinydd yn y bôn sy`n gwneud yr holl drefniadau gweinyddol ac nid yw'n elwa o gael corff o rieni a fyddai'n ei darparu hi a`r lleoliad â gwerthusiad beirniadol neu gymorth.

Ar y cyfan, mae rhediad y lleoliad yn troi o gwmpas yr arweinydd ac mae llwyddiant presennol y lleoliad yn dyst i'w hymrwymiad. Mae ei chydweithwyr yn rhoi cefnogaeth dda iddi ac mae pawb wedi ymrwymo i ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl i'r plant. Mae prosesau rheoli perfformiad yn eu lle ac mae anghenion hyfforddi penodol wedi`u nodi. Mae`r staff yn gweithio'n effeithiol ac yn broffesiynol ac yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Mae'r arweinydd yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac yn canolbwyntio'n gryf ar ddatblygu llythrennedd a rhifedd y plant, a lles y plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd, yn rhannu syniadau a chwilio am ffyrdd i wella. Mae cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae'r adborth gan staff yn cael ei ddefnyddio`n adeiladol gan yr arweinydd. Ceisir barn rhieni trwy holiadur. Mae'r lleoliad wedi llunio dogfen hunanarfarnu manwl a chynhwysfawr yn seiliedig ar fframwaith Estyn. Mae hyn yn cynnwys datganiad ar safonau, y sail dystiolaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae`r cynlluniau ar gyfer gwella yn cael eu costio a'u cynnal pan fydd cyllid yn caniatáu. Mae grant diweddar ar gyfer gwella rhan o'r ardal chwarae y tu allan wedi bod yn fuddiol o ran caniatáu ardal i blant ddatblygu eu sgiliau echddygol bras.

Mae`r angen parhaus i wella cymhwysedd ymarferwyr yn yr iaith Gymraeg yn cael ei gydnabod ac mae staff yn awyddus i wella eu cymhwysedd. Yn anffodus, nid oes cyrsiau lleol yn yr iaith Gymraeg ar gael bellach yn y gymuned.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r partneriaethau sydd wedi`u sefydlu gan y lleoliad yn gwneud cyfraniad pwysig a gwerthfawr i ansawdd y ddarpariaeth ac i gyflawniad a lles plant.

Mae rhieni a gofalwyr yn gefnogol iawn o'r lleoliad. Maen nhw`n derbyn gwybodaeth berthnasol am y lleoliad cyn i'w plentyn ddechrau mynychu, yn cael mynediad hawdd wrth ddod â'u plentyn i'r lleoliad ac yn derbyn adroddiadau rheolaidd. Mae`r plant yn elwa o`r berthynas agos rhwng staff a rhieni a gofalwyr. Mae rhieni, yn ystod trafodaeth gyda'r arolygydd, wedi amlygu agweddau gwerth chweil gan gynnwys datblygiad cymdeithasol y plant a`u gallu ieithyddol. Fodd bynnag, yn anffodus, mae`r rhieni yn amharod i gymryd rhan ac mae hyn er gwaethaf ymdrechion gan y staff a swyddog datblygu Mudiad Meithrin sydd wedi cwrdd â`r holl rieni ar wahan.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau gwerthfawr gydag Ysgol Gymraeg Cwmbran. Mae`r plant yn ymweld â'r ysgol ar gyfer cyngherddau yn ystod y Nadolig ac yn gwneud defnydd o rai o adnoddau`r ysgol yn ôl yr angen. Mae'r lleoliad hefyd yn darparu "gofal cofleidiol" ar gyfer plant pedair oed sy`n mynychu'r ysgol yn rhan-amser. Mae hyn yn cael effaith fuddiol yn y ffordd mae`r plant iau yn cyfarfod rhai sydd wedi mynd yn ei flaen yn rheolaidd. Mae hyn yn gwneud y profiad pontio yn llai arswydus ar gyfer y plant.

Mae`r bartneriaeth gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn effeithiol iawn ac mae'r lleoliad yn gwerthfawrogi ei chyngor a chefnogaeth yn fawr. Mae Mudiad Meithrin wedi cynnal adolygiad o`r staffio a dim ond yn ddiweddar mae`r swyddog datblygu presennol wedi dechrau ei chyfraniad. Cyn hyn, mae Mudiad Meithrin wedi bod yn gefnogol. Mae'r angen i wella sgiliau iaith Gymraeg yr ymarferwyr yn cael ei gydnabod.

Mae cysylltiadau da iawn yn eu lle gydag asiantaethau amlddisgyblaethol yr awdurdod lleol i ddarparu cymorth ar gyfer y lleoliad. Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn dda ac mae ymwelwyr yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaeth tân a nyrs.

Mae'r lleoliad wedi ei leoli mewn neuadd eglwys leol ac yn mwynhau perthynas dda â grŵp rheoli`r eglwys.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol ac yn cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae`r ymarferwyr yn effeithiol drwy ddarparu ar gyfer lles a datblygiad y plant. Mae`r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn perfformio'n dda fel tîm gan gymryd cyfrifoldeb am wahanol agweddau o`r ddarpariaeth.

Mae gan y lleoliad adnoddau addas i gwrdd ag anghenion y Cyfnod Sylfaen ac i gefnogi'r addysgu. Mae`r adnoddau yn hygyrch i'r plant. Mae'r adeilad a'r ardal allanol yn cael eu cynnal yn dda.

Mae gan yr arweinydd ddealltwriaeth glir o benderfyniadau am y cyllid ac mae gwariant yn cael eu blaenoriaethu yn unol ag anghenion y lleoliad. Mae cymorth grant wedi cael ei ddefnyddio yn effeithiol. Mae`r cyfrifon yn cael eu harchwilio'n flynyddol.

O ystyried y defnydd effeithlon o arian, y profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant a'r gofal mae`r plant yn ei dderbyn, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr  arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |